

# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Enw'r Awdurdod Lleol

Cyngor Sir Ddinbych

Cyfnod y cynllun hwn

2022-2032

## FERSIWN YMGYNGHORI

Caiff y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ei wneud o dan Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 <sup>1-2</sup>. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth osod ein targedau.

Llofnodwyd: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r cynllun hwn).

<sup>1</sup> [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) 2019](#)

<sup>2</sup> [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) \(Diwygiad\) \(Coronafeirws\) 2020](#)

## **Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio o ran y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal**

Erbyn Medi 2032 dyhead Cyngor Sir Ddinbych yw y bydd 40% o'r holl ddisgyblion saith mlwydd oed wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd cael sylfaen gadarn o ran siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn cynyddu dewis y disgybl a'r hyder i ddilyn llwybr cwbl ddwyieithog mewn addysg ac ymlaen i gyflogaeth ac i'r gymuned ehangach.

Ym Medi 2020 roedd 28% o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn ysgolion Sir Ddinbych yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Erbyn 2032 dyhead Cyngor Sir Ddinbych, drwy ymgynghoriad llawn gyda budd-ddeiliaid, yw mynd heibio'r targed isaf o 37% a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o fod yn nes at y targed uwch o 41%.

Yn y cyfnod rhwng 2010 a 2020, cynyddodd y ganran a nifer y disgyblion a oedd yn derbyn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych. Mae hyn wedi digwydd yr un pryd â buddsoddiad yn ystâd yr ysgolion a gweithredu cynigion adrefnu ysgolion. Ar hyn o bryd mae yna leoedd gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a allai ddarparu ar gyfer 30% o'r holl ddisgyblion Blwyddyn 1 yn Sir Ddinbych, er nad yw wedi ei ddosbarthu'n gyfartal drwy'r Sir. Mewn rhai ardaloedd mae yna lai na 4% o leoedd gwag ar gael ac felly fe fydd twf pellach yn golygu fod angen gwneud newidiadau.

Yn Sir Ddinbych cynigir bodloni'r targed ar gyfer twf drwy gynyddu capasiti Ysgolion cyfrwng Cymraeg a newid dynodiad iaith ysgolion cyfrwng Saesneg. Canlyniad hyn fydd cynnydd graddol yn argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod y cynllun hwn, sef 10 mlynedd.

Byddai'r dyhead hwn yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i un miliwn erbyn 2050. Mae hyn hefyd yn cefnogi gweledigaeth Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y Gymraeg, a nodir yn Strategaeth y Gymraeg:

- Mae Sir Ddinbych yn sir ddwyieithog yn bennaf, gyda diwylliant a threftadaeth gyfoethog.
- Mae arnom eisiau gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i'n staff weithio yn y Gymraeg a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Dymunwn weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith sy'n ffynnu yn Sir Ddinbych.

Fe fydd gofyn i bob ysgol yn Sir Ddinbych gynnwys yn Adroddiad Blyneddol y Llywodraethwyr i rieni pa gamau maent wedi eu gweithredu i gefnogi deilliannau'r cynllun hwn ar gyfer cyfnod y cynllun.

## Deilliant 1

**Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.**

### Ble rydym ni nawr?

Mae iaith darpariaeth cyn ysgol yn Sir Ddinbych fel a ganlyn yn unol â disgrifiad y darparwr:

Nifer y darparwyr gofal plant yn ôl iaith y ddarpariaeth	Cymraeg	Cymraeg a Saesneg	Saesneg gydag elfennau o Gymraeg	Saesneg	Cyfanswm lleoliadau
Nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig	6	0	11	22	39
Nifer y meithrinfeydd dydd cofrestredig	15	3	26	2	56
Nifer y sesiynau gofal cofrestredig	9	0	2	0	11
Nifer y lleoliadau ar ôl ysgol cofrestredig	6	0	8	3	17
Cyfanswm	36	3	56	27	123

Mae 32% o'r holl leoliadau un ai yn rhai cyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog. Mae 79% o'r holl leoliadau yn cynnig rhai elfennau o'r Gymraeg.

Mae'r gyfran uchaf o un ai lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn ardal Corwen gyda 80% ac mae'r rhain yn cyflenwi 98% o'r holl leoedd sydd ar gael. Yr ardal gyda'r nifer uchaf o leoedd ar gael yw Rhuthun, ond nid yw lleoliad Cylch Rhuthun ym mhentref Pwllglas yn addas i rieni heb gar.

Ardal	Canran y lleoliadau Cymraeg neu Ddwyieithog	Capasiti y lleoliadau Cyfrwng Cymraeg neu Ddwyieithog	Capasiti'r holl leoliadau gofal plant yn yr ardal
Corwen	80%	123	126
Dinbych	38%	252	608
Llangollen	29%	39	185
Prestatyn	10%	67	683
Y Rhyl	19%	158	1053
Rhuthun	57%	354	705
Llanelwy	25%	38	211

Mae'r mwyafrif o ddarparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych yn gysylltiedig â'r Mudiad Meithrin. Yn 2020 roedd canran y plant a oedd yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn 93.8%, sy'n uwch na chyfradd drosglwyddo Cymru gyfan sef 89.8%. Roedd y cyfraddau newid isaf o Gylch Bodawen a Chylch Dinbych Uchaf. Mae'r ddau leoliad hwn yn Ninbych.

Yn ystod y cynllun blaenorol, cafodd darpariaethau Cylch Meithrin newydd eu hagor yng Ngwyddelwern, Llanfair Dyffryn Clwyd, Clocaenog a Llanelwy. Cafodd dau o'r darpariaethau hyn eu lleoli ar yr un safle ag ysgol gynradd. Mae'r pedwar lleoliad hwn yn darparu 87 lle. Hefyd cafodd dau leoliad a oedd yn bodoli eisoes (Aberclwyd a Rhuddlan) eu huno i greu Cylch Dewi Sant a gafodd ei ail leoli i safle Ysgol Dewi Sant yn y Rhyl.

Mae yna 17 grŵp Ti a Fi yn cael eu cynnal yn Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth ychwanegol yn cael ei thargedu yn ardaloedd y Rhyl, Prestatyn, Llanelwy a Chorwen.

#### Dechrau'n Deg

Mae yna 3 lleoliad cyfrwng Cymraeg allan o 13 (23%) ym mhob un o'r tair ardal Dechrau'n Deg. Mae hyn yn golygu fod 25 plentyn o'r 170 (14.7%) yn mynychu lleoliad cyfrwng Cymraeg.

#### Cludiant i Ddysgwyr

Yn unol ag adran 10 o Fesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008, mae'r Awdurdod yn hyrwyddo mynediad i addysg gyfrwng Cymraeg trwy ddarparu cludiant dewisol i'r addysg Gymraeg neu gyfrwng Saesneg addas agosaf, os yw hyn yn well gan rieni / gofalwr. Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yr ysgol yw eu hysgol addas agosaf.

Ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg byddai'n ysgol sydd wedi'i chategoreiddio fel naill ai 1 neu 2 o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer categori 2 byddai'n ysgol lle mae o leiaf 80% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg.

Os yw'r ysgol Gymraeg neu gyfrwng Saesneg agosaf y tu allan i'r Sir, byddai'r Awdurdod yn dal i ddarparu cludiant. Dim ond yn erbyn ysgolion Cymraeg neu Cyfrwng Saesneg y bydd dewis yn cael ei ystyried. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r un meini prawf pellter ag o fewn y Sir.

### **Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

O fewn pum mlynedd cyntaf y cynllun y bwriad yw diogelu'r ddarpariaeth bresennol a gwella hygyrchedd ar gyfer darpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy'r isod:

- Cwblhau cyfleusterau gofal plant newydd wedi eu lleoli ar yr un safle ag Ysgol Dewi Sant, y Rhyl ac Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych, gan sicrhau digonedd cyfleusterau.
- Gwella cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Rhuthun a Phrestatyn, diogelu'r lleoedd ar gyfer y dyfodol.

- Cynyddu'r nifer o leoliadau a all ddarparu o leiaf elfennau o'r Gymraeg o 79% i 90%.
- Cynyddu'r nifer o leoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn ardal Llangollen i 60.
- Sefydlu lleoliad Cyfrwng Cymraeg newydd yng Nghanolfan Gofal Plant Integredig y Dderwen gan greu darparwr dechrau'n deg newydd yn y Rhyl a chynyddu'r nifer o leoedd sydd ar gael.
- Sicrhau fod darpariaeth gofal plant ar gael i bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych.
- Bydd y Mudiad Meithrin yn gweithio gyda'r Cyngor ac eraill i greu darlun clir o'r llwybr i Addysg Gymraeg i sicrhau fod y negeseuon cywir yn cael eu rhannu.
- Bydd y Mudiad Meithrin, drwy'r rhaglen Cymraeg i Blant, yn parhau i gefnogi rhieni drwy gynnal sesiynau cefnogi i ddarpar rieni a rhieni newydd. Bydd y mudiad yn cynnig sesiynau tylino babi, ioga babi a sesiynau Stori, Arwyddo a Chân.
- Bydd y swyddog Cymraeg i Blant yn rhannu gwybodaeth yn ymwneud â'r manteision o gyflwyno'r Gymraeg a bydd yn rhannu gwybodaeth am ofal ac addysg yn y Gymraeg drwy weithio gyda'r Ymwelwyr lechyd a'r Bydwagedd o fewn y Sir.
- Cefnogi'r Mudiad Meithrin i annog datblygiad pellach y grwpiau Ti a Fi Lleol.
- Gweithio gyda rhaglen Sefydlu a Symud y Mudiad Meithrin i sicrhau fod mwy o leoliadau gofal plant yn cyflwyno'r Gymraeg drwy'r Sir.
- Cynyddu canran a nifer y plant sy'n cael mynediad i wasanaethau Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau fod yr ymateb i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn cael ei alinio i fodloni'r angen am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg i sicrhau llwybr di-dor o ran addysg cyfrwng Cymraeg.

Felly, dros y 5 mlynedd cyntaf o'r Cynllun ein bwriad yw i ddarparu o leiaf 80 o leoedd newydd a diogelu 50 o leoedd eraill.

Bydd Cyngor Sir Dinbych yn gweithio gyda rhan ddeiliaid i adolygu'r llwybr defnyddwyr i rieni er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar sawl pwynt yn ystod y broses i ddarparu gwybodaeth am yr opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal? Byddwn yn defnyddio mewnbwn rhan ddeiliaid i deilwra'r wybodaeth sydd ar gael i rieni a gofalmwr a sicrhau ei bod yn nodi'n glir:

- Mae Addysg Cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bawb waeth beth fo eu cefndir ieithyddol.
- Buddion dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.
- Mae gwybodaeth glir a chynhwysfawr yn ein llyfryn derbyn ac ar y wefan.
- Gwybodaeth am ysgolion yn cynyddu faint o Gymraeg a pha ysgolion sydd ar y llwybr i newid categori iaith, a beth mae hynny yn ei olygu.
- Sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn sicrhau mynediad i addysg cyfrwng Cymru trwy ei Bolisi Cludiant i Ddysgwyr.

Byddwn hefyd yn cynnwys dolenni i wybodaeth ychwanegol:

- Llenyddiaeth a chyhoeddiadau Cymru.
- Adnoddau ar-lein.

- Cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg.
- I ategu'r wybodaeth ar-lein, rhoddir hyfforddiant i staff rheng flaen ar sut i drafod yr opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, cwestiynau / pryderon cyffredin.

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun 10 mlynedd rydym yn disgwyl:

- Cynnydd yng nghanran y plant 3 oed sydd wedi eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i dros 30%.
- Cynyddu argaeledd lleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ardal Dinbych i dros 50%.
- Cefnogi mwy o leoliadau sydd ar hyn o bryd yn darparu rhai elfennau o'r Gymraeg i gynyddu eu darpariaeth i alluogi mwy o blant i adael y lleoliad yn ddwyieithog.
- Mwy o gapasiti cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd y Rhyl a Phrestatyn.
- Mwy o leoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi eu lleoli yn agos i ysgolion sy'n cynyddu eu cyfran o'r Gymraeg a gaiff ei dysgu yn y cwricwlwm.
- Mwy o leoliadau gofal plant yn cyflwyno'r Gymraeg ledled y Sir.
- Mwy o blant yn cael mynediad i Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn nodi fod yna lwybr di-dor tuag at addysg cyfrwng Cymraeg.

### Data Allweddol

Yn 2020-21 roedd cyfanswm o 95 o blant tair blwydd oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Roedd hyn yn cynrychioli 23% o'r holl blant 3 blwydd oed a oedd yn cael eu haddysgu. Mae'r data isod yn adlewyrchu twf posib yn seiliedig ar wireddu ein cynlluniau.

#### Niferoedd a % y plant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
110	25%	110	25%	110	25%	118	27%	118	27%
2027 - 2028		2027 - 2028		2027 - 2028		2027 - 2028		2027 - 2028	
118	27%	132	30%	132	30%	140	32%	140	32%

## Deilliant 2

### Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

#### Ble rydym ni nawr?

Mae addysg cyfrwng Cymraeg wedi tyfu yn Sir Ddinbych dros y 10 mlynedd diwethaf.

	2010	2020	Newid
Y nifer o ddisgyblion Cynradd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg	1750	2069	+ 18.2%
Y ganran o ddisgyblion cynradd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg	24%	27%	+ 3%
Rhif derbyn cronol (Categori 1 a 2)	321	324	+3

O 2020 mae yna le ar gyfer 2304 o ddisgyblion cynradd llawn amser i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgolion Sir Ddinbych. Mae 10 o'r safleoedd ysgol hyn hefyd wedi derbyn buddsoddiad sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf.

Ym mlwyddyn academiaidd 2020/21 fe dderbyniodd 27% o'r holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd 27% o'r holl ddisgyblion hefyd ym Mlwyddyn 1 o'r flwyddyn academiaidd 2020/21 ac felly mae 27% yn cynrychioli'r waelodlin gyfredol yn gywir.

Yn 2020 fe gwblhaodd Cyngor Sir Ddinbych adeilad Canolfan Gymraeg. Mae'r adeilad yn cynnwys y ddarpariaeth hwyrddfyodiaid ar gyfer disgyblion rhwng 7 a 11 oed yn y sir ac mae wedi ei leoli yn Llanelwy. O ganlyniad i ddaearyddiaeth y Sir, fe fydd y cymorth i hwyrddfyodiaid yn cael ei rannu rhwng y ddarpariaeth yn y ganolfan a thrwy'r gwasanaeth allgymorth.

#### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Mae Sir Ddinbych wedi cael targed i gynyddu nifer y disgyblion Blwyddyn 1 a gaiff eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 10% dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r cynllun hwn yn adnabod ymagwedd a fyddai'n hwyluso'r cynnydd hwn ac mae'n cydnabod y gofyniad i ddechrau cyflawni newid yn ystod y 5 mlynedd cyntaf.

#### A yw'r capasiti cyfrwng Cymraeg presennol yn ddigonol i gefnogi'r twf hwn?

Yn gyffredinol mae yna 10.2% o leoedd gwag o fewn ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg i alluogi twf. Fodd bynnag nid yw'r capasiti hwn wedi ei ddosbarthu'n gyfartal drwy'r Sir ac mae llai na 4% o le ar gael yn ardaloedd Dinbych, Edeyrnion a Dyffryn Dyfrdwy.

Pe byddai'r holl leoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn llawn, yn seiliedig ar y cohortau presennol, byddai 30% o ddisgyblion yn derbyn addysg cyfrwng

Cymraeg. Felly mae'n amlwg y bydd angen gwneud mwy er mwyn i Sir Ddinbych gyrraedd ei tharged.

### **Beth yw'r ymagwedd a gynigir?**

- Cynyddu capasiti mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Mae Ysgol Gymraeg y Gwernant yn Llangollen wedi ei chynnwys ym Mand B rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif a bydd y buddsoddiad yn yr ysgol yn golygu fod y rhif derbyn yn cynyddu o 11, sef o 19 i 30, a bydd hyn yn cynyddu y capasiti llawn amser i 210.

Fe fydd adolygiad o ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill hefyd yn cael ei gynnal i nodi sut y gellir cynyddu capasiti o fewn cwrtil presennol eu hadeiladau.

- Newid dynodiad ieithyddol ysgolion

Bydd hyn yn gofyn am newid iaith yr addysgu o Saesneg i'r Gymraeg, gan ddechrau gyda'r cyfnod sylfaen.

Bydd hyn yn broses a fydd yn digwydd dros gyfnod o hyd at 6 mlynedd wrth i ddechreuwyd newydd gael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Erbyn 2032, fe fydd ysgolion a fydd wedi trawsnewid yn darparu o leiaf y cyfnod sylfaen cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Pa ysgolion a fydd yn cael eu hadnabod i ddatblygu eu darpariaeth?**

Bydd a'r ysgolion sydd ag ychydig o'r nodweddion canlynol neu'r cyfan ohonynt gam byrrach i gyrraedd y nod o ran cynyddu eu darpariaeth:

- Ar hyn o bryd yn darparu defnydd sylweddol o'r Gymraeg (Dynodiad – Categori 4).
- Cyfran uchel o staff gyda lefel uchel o'r Gymraeg.
- Wedi eu lleoli mewn ardaloedd gyda nifer isel o leoedd gwag o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol.
- Cefnogaeth gan y Corff Llywodraethu.
- Mynediad at ddarpariaeth cyn ysgol Cymraeg neu ddwyieithog.

O ganlyniad fe fyddai'r cynllun hwn yn blaenoriaethu cynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion sy'n bodloni mwy o'r nodweddion uchod o ganlyniad i'r tebygrwydd uwch y byddai newid yn cael ei gyflawni'n gynharach.

Erbyn diwedd y pum mlynedd cyntaf disgwylir y byddai pedair ysgol wedi dechrau cyflwyno mwy o Gymraeg yn eu cyfnod sylfaen ac y bydd y ganran gyffredinol o ddisgyblion blwyddyn 1 sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 5%. Bydd Cyngor Sir Ddinbych a GWE yn sefydlu a gweithredu pecyn cymorth ar gyfer pob ysgol sy'n cymryd rhan mewn trawsnewid categori ieithyddol.



## Pa gymorth fydd yn cael ei ddarparu ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol?

Fe fydd y prif gymorth ar gyfer twf o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng yr isod:

- Buddsoddiad mewn cyfleusterau cyn ysgol cyfrwng Cymraeg, gan wneud addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy hygyrch a galluogi sefydliadau partner i ymgysylltu gyda rhieni.
- Gwella argaeledd a lleoliad gwybodaeth ar wefan Cyngor Sir Ddinbych gan sicrhau ei bod yn hawdd i ddod o hyd i wybodaeth.
- Mynd i'r afael â materion sy'n cyfyngu'r cynnig presennol ar rai safleoedd ysgol drwy fuddsoddiad cyfalaf ar raddfa fach.

Fe fydd pob elfen yn cyfrannu tuag at y nod o gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd hwn, disgwylir y bydd Sir Ddinbych o fewn cyrraedd y targed yr anelir ato o 40% o ddisgyblion blwyddyn 1 yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Fe fydd hyn wedi ei gyflawni drwy'r buddsoddiad cyfalaf a gynlluniwyd mewn isadeiledd cyn ysgol ac ysgol gynradd a thrwy fuddsoddiad mewn trawsnewid ysgolion i gynnig mwy o addysg cyfrwng Cymraeg.

Fe fydd o leiaf pedair ysgol wedi trawsnewid yn llwyddiannus i ddarparu'r cyfnod sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg a byddant wedi cwblhau'r broses i newid y categori ieithyddol i ddod yn ysgolion categori 2. Hefyd mae disgwyl y bydd o leiaf 4 ysgol arall wedi dechrau'r broses i gynyddu eu cynnig cyfrwng Cymraeg ac wedi dechrau'r broses o ddarparu cyfnod sylfaen cyfrwng Cymraeg.

Fe fydd dynodiad ieithyddol unrhyw ysgolion newydd a gaiff eu hagor dros y 10 mlynedd nesaf yn bodloni gofyniad strategol y cynllun hwn.

O ganlyniad fe fydd y cynnig cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych wedi cynyddu i'r hyn sy'n gyfystyr â thri a hanner dosbarth mynediad neu 105 o leoedd y flwyddyn.

## Data Allweddol

Mae'r data isod wedi ei seilio ar ragamcanion cyfredol sy'n cynnwys rhagdybiaethau yn ymwneud â thwf yn y galw mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol a thrawsnewid ysgolion cyfrwng Saesneg presennol i gynnig cyfnod sylfaen cyfrwng Cymraeg.

### Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
297	27%	310	28%	310	28%	330	30%	352	32%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
352	32%	410	37%	410	37%	422	38%	444	40%

## Deilliant 3

### Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth trosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

#### Ble rydym ni nawr?

Mae'r waelodlin ar gyfer y canran o ddisgyblion sy'n trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol fel a ganlyn:

##### Y Cyfnod Sylfaen

27% o'r disgyblion ym mlwyddyn 1 ym mlwyddyn academiaidd 2020/21 yn dilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. 99% wedi parhau o addysg feithrin yn 2018/19.

##### Cyfnod Allweddol 2

27% o'r disgyblion ym mlwyddyn 3 ym mlwyddyn academiaidd 2020/21 yn dilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. 97% wedi parhau o flwyddyn 1 yn 2018/19.

##### Cyfnod Allweddol 3

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae 93% o ddisgyblion yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych a oedd yn astudio'r Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi trosglwyddo i ddarpariaeth addysg Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3. Nid yw'r ffigwr yn cynnwys disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth drochi yn Ysgol Glan Clwyd sy'n galluogi hwyrddyfodiaid i fynychu addysg cyfrwng Cymraeg.

##### Cyfnod Allweddol 4

Yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael roedd 95% o ddisgyblion a oedd wedi eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9) wedi parhau i gael eu hasesu Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 11).

#### Y Ddarpariaeth Bresennol yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4

Mae yna dair ysgol yn Sir Ddinbych sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4. Yr ysgolion hyn yw Ysgol Glan Clwyd yn Llanelwy, Ysgol Brynhyfryd yn Rhuthun ac Ysgol Dinas Brân yn Llangollen. Ar hyn o bryd mae Ysgol Glan Clwyd wedi ei chategoreiddio fel Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg (Categori 1) ac Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Brân fel ysgolion dwyieithog (Categori 2B).

Bydd categorïau iaith newydd yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2021 a bydd darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg presennol Sir Ddinbych yn trosglwyddo i gategoriâu newydd.

## **Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Bydd y categorïau iaith newydd y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cadarnhau yn ystod 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gael ei gosod yn ei chategori mwyaf priodol sy'n dangos ei darpariaeth Gymraeg. Fe fydd Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno ar y categori priodol ar gyfer eu darpariaeth gyda llywodraethwyr pob ysgol a gynhelir. Bydd hyn yn cael ei seilio ar eu darpariaeth bresennol a'u diddordeb mewn datblygu eu darpariaeth yn y dyfodol. Fe fydd ysgolion sy'n gweithredu gweledigaeth y Cynllun hwn ar gyfer datblygiad ieithyddol yn cael eu gosod mewn categorïau trawsnewid. Fe fydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau erbyn Mehefin 2022.

Fe fydd y pecyn cymorth a fydd gan y Cyngor mewn grym yn cynorthwyo ysgolion i fodloni'r canlyniadau addysgol a ieithyddol perthnasol erbyn 2032 a thu hwnt.

### **Darpariaeth yn ne y Sir – ardaloedd Rhuthun, Edeirnion a Llangollen.**

O fewn y 5 mlynedd cyntaf fe fydd gwaith yn digwydd yn benodol i adolygu'r ddarpariaeth yn Ne y Sir i gynnal a chryfhau'r cynnig uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion. Fe fydd y Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Brân a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n eu bwydo i adolygu trefniadau presennol a nodi ffyrdd o wella a chynnal eu cynnig cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o sicrhau fod yr un cynnig ieithyddol ar gael i bob disgybl yn Sir Ddinbych hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 4 erbyn 2027.

O 2022 fe fydd y cynnig yng Nghyfnod Allweddol 4 yn Ysgol Brynhyfryd yn union yr un fath â'u cynnig cyfrwng Saesneg a gellir ei gymharu â'r cynnig mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Y targed cychwynnol ar gyfer yr adolygiad fydd i nodi'r ffyrdd gorau o gynnal y cynnig a sicrhau nad oes unrhyw gam yn ôl yn cael ei gymryd yn y dyfodol.

Yn Ysgol Dinas Brân bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar nodi'r model gorau ar gyfer darparu cynnig cyfartal â'r hyn a fydd yn cael ei gynnig yn Ysgol Glan Clwyd ac Ysgol Brynhyfryd.

### **Disgyblion yn trosglwyddo i addysg uwchradd**

Mae 93% o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg cynradd yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yw 93%. Yn 2020 dewisodd 3% o'r disgyblion a oedd yn newid o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i gyfrwng Saesneg y ffrwd cyfrwng Saesneg yn unai Ysgol Brynhyfryd neu Ysgol Dinas Brân a dewisodd 4% ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg. Dewisodd y rhan fwyaf o'r disgyblion a oedd yn mynd i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn 2020 ysgol uwchradd a oedd yn nes at eu cyfeiriad cartref na'r dewis cyfrwng Cymraeg agosaf.

Mae y canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ne y sir ar hyn o bryd yn 89%. O ganlyniad bydd y ddwy ysgol uwchradd yn ne y Sir, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Brân, yn cael cymorth partneriaid i weithio gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo a'u rhieni i gynyddu'r gyfradd trosglwyddo i 95% o fewn y 5 mlynedd cyntaf.

Bydd Cyngor Sir Dinbych yn parhau i ddefnyddio'r un fethodoleg sydd yn seiliedig ar ddata i fonitro'r cyfraddau dilyniant ieithyddol gan fod cadw dull cyson yn hanfodol i alluogi cymhariaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Bydd Cyngor Sir Dinbych yn parhau i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol cyfagos i sicrhau parhad yn y trefniadau ar gyfer pobl sy'n derbyn eu addysg Gymraeg y tu allan i'r Sir.

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ôl gweithio gyda budd-ddeiliaid Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Brân y bwriad yw y bydd, erbyn 2032, ddarpariaeth uwchradd yn ne y Sir sy'n darparu deilliannau sy'n gyfartal â rhai Ysgol Cyfrwng Cymraeg (Categori 3 o'r Dynodiadau Iaith Ysgol newydd drafft).

Byddai hynny'n sicrhau fod yna ddewis a chyfle sydd yr un fath â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yng ngogledd y Sir.

Fe fydd ysgolion cynradd a fydd wedi newid iaith eu darpariaeth wedi cwblhau gweithredu ffrwd cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant rhwng 7 a 11 oed gydag o leiaf 60% o'r disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Fe fydd de y Sir hefyd wedi datblygu rhaglen drochi i alluogi hwyrddfyodiaid i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3.

### Data Allweddol

Ym Medi 2020, fe drosglwyddodd 93% (262) o ddisgyblion o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn cynrychioli 24% o gohort cyfan Blwyddyn 6.

Mae'r targed yn ystyried nifer cyfredol y disgyblion sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob cohort a chaiff ei addasu yn unol â hynny.

Niferoedd a % y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
306	94%	241	94%	286	95%	285	95%	281	95%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
283	98%	268	98%	277	98%	296	98%	308	98%

## Deilliant 4

### Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

#### Ble rydym ni nawr?

##### Gwaelodlin

Fe fydd y data ar gyfer 2018/19 yn cael ei ddefnyddio fel y waelodlin sef y flwyddyn ddiweddaraf pan oedd yr holl fesurau wedi eu cwblhau:

##### Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

Llinyn Mesur	Nifer	Canran
CS O5+ (LCW)	225	85.6%
CA2 L4+ (Cym)	236	88.4%
CA2 L4+ (Cym	222	92.5%
CA4 A*- C (Cym)	165	77.5%

##### Myfyrwyr cyfrwng Saesneg

Llinyn Mesur	Nifer	Canran
CA2 L4+ (Cymraeg Ail iaith)	690	88.4%
CA3 L5+ (Cymraeg Ail iaith)	763	79.9%
CA4 A*-C (Cymraeg Ail iaith)	470	65.1%

Yn 2019 fe astudiodd 27% o'r holl ddysgwyr yn Sir Ddinbych ar gyfer cymhwyster TGAU iaith gyntaf gyda 21% yn derbyn A\* - C.

Fe fu gostyngiad yn y ganran o ddysgwyr a gafodd A\* - C ail iaith gan fod mwy o ddisgyblion wedi cael eu cofrestru ar gyfer y cwrs llawn oherwydd i'r cymhwyster y cwrs byr gael ei ddiddymu. 470 o ddysgwyr a gafodd eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster yn 2016 o'i gymharu â 724 yn 2019.

##### Cymraeg fel pwnc Lefel A

Blwyddyn Academaidd	Myfyrwyr a gofrestrwyd ar gyfer y Gymraeg	Myfyrwyr a gofrestrwyd ar gyfer Cymraeg Ail iaith
2018/19	16	2
2019/20	18	6

Fe astudiodd 5% o'r cohort un ai Cymraeg fel iaith Gyntaf neu Ail iaith mewn Lefel A yn 2018/19. Yn 2019/20 cynyddodd y ganran i 7.5% er bod y cohort hefyd yn llai na 2018/19.

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

**Sut fyddwn yn rhoi cymorth i ysgolion Uwchradd i gymryd camau i gynyddu'r nifer a chanran y disgyblion a all astudio trwy gyfrwng y Gymraeg?**

- Fe fyddwn yn ymgysylltu gyda theuluoedd o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i barhau gydag addysg cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio platfformau'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cefnogi mwy o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i gael mynediad i'r rhaglen drochi yn Ysgol Glan Clwyd.
- Darparu hyfforddiant i'r athrawon hynny sydd angen cymorth ychwanegol i ddefnyddio'r iaith.
- Sicrhau fod ysgolion yn deall gofynion y cymwysterau TGAU newydd o ganlyniad i Gwricwlwm Cymru.
- Datblygu targedau ychwanegol yn dilyn ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y cynnig y bydd TGAU Cymraeg yn gyfystyr ag un a hanner TGAU.

**Sut fyddwn yn rhoi cymorth i ysgolion Uwchradd i gymryd camau i gynyddu'r nifer o gymwysterau y gall disgyblion astudio ar eu cyfer drwy gyfrwng y Gymraeg?**

- Fe fyddwn yn gweithio gyda'n hysgolion i sylfaenu'r holl wybodaeth yn ymwneud â'r gyfradd astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA4 a CA5 ac argaeledd cyrsiau o Medi 2022 ac ymlaen.
- Fe fyddwn yn gweithio i sicrhau fod y cynnig addysgol Uwchradd yn ne y Sir yn gydradd â'r cynnig sydd ar gael yn y gogledd a bod y cynnig yn cael ei gynnal ac nad oes unrhyw gam yn cael ei gymryd yn ôl.
- Parhau i ddosbarthu'r cyllid perthnasol ar gyfer y Gymraeg i sicrhau dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer pynciau CA4 – monitro a chyfiawnhau'r gwariant hwn cyn, yn ystod ac ar ddiwedd cyfnodau ariannol.
- Defnyddio'r system e-sgol i gefnogi pynciau TGAU ac ehangu bwydlen e-sgol yn nhermau pynciau Lefel A cyfrwng Cymraeg.
- Sicrhau fod disgyblion sy'n astudio cymhwyster iaith gyntaf, sydd hefyd yn astudio Bagloriaeth Cymru, yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cefnogi'r athrawon hynny sydd â diffyg hyder ieithyddol i fynychu'r cwrs sabothol a darparu sesiynau gwella (gloywi iaith) ar eu cyfer o fewn yr awdurdod.
- Casglu data cyfredol o ba bynnag fwrdd arholi/cymwysterau y mae'r ysgolion yn eu dewis e.e. mae rhai ysgolion yn newid o ddysgu Lefel A i ddarparu cwrs BTEC.
- Cefnogi ysgolion wrth iddynt ddylunio cynnydd priodol ar hyd llwybr ieithyddol y disgyblion o un sector i'r llall, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.
- Sefydlu perthynas agos a chynllun gyda Gyrfa Cymru er mwyn rhannu negeseuon cadarnhaol.

## Cymraeg fel pwnc Lefel A

- Fe fyddwn yn datblygu'r defnydd o e-sgol i rannu arbenigedd rhwng ysgolion i sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei chynnig fel pwnc Lefel A yn yr holl ddarpariaeth Lefel A yn y Sir.
- Fe fyddwn yn cydweithio gydag ysgolion i hyrwyddo'r manteision o astudio'r Gymraeg fel pwnc ymhlith disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid drwy greu ein fideos astudiaeth achos ein hunain yn olrhain gyrfaedd disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel pwnc Lefel A.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd y cynllun 10 mlynedd hwn, fe fydd darpariaeth dwy ysgol Uwchradd yn Sir Ddinbych yn bodloni gofynion ysgol cyfrwng Cymraeg (categoriâu ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg - Llywodraeth Cymru).

I weld y canran o ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer eu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu'n raddol bob blwyddyn i ailadrodd y cynnydd sydd wedi digwydd yn y ddarpariaeth Gynradd.

Fe fydd mwy o fyfyrwyr yn astudio'r Gymraeg fel pwnc Lefel A.

Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn hyder disgyblion a rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg.

Yng nghanlyniadau cyfrifiad 2031 fe fyddwn yn disgwyl gweld canran uwch o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed a all siarad Cymraeg.

## Data Allweddol

Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
261	21%	294	22%	276	22%	295	23%	279	24%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
256	24%	301	27%	300	27%	296	27%	289	28%



## Deilliant 5

### Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyddestunau gwahanol yn yr ysgol

#### Ble rydym ni nawr?

Mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i wella sgiliau Cymraeg unigolion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn unrhyw ysgol er mwyn gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg. Caiff safonau ysgolion unigol eu harchwilio gan aelodau etholedig drwy'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion a gan swyddogion Gwe.

Mae ysgolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar gyfer dyddiau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg, fel Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi ayb, gyda g tîm cyfathrebu corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn hyrwyddo y gweithgaredd.

Ers 2017 mae disgwyliad hefyd ar yr holl ysgolion yn Sir Ddinbych i gynnwys yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni beth maent wedi ei wneud i wella'r Gymraeg yn erbyn y canlyniadau yn y cynllun.

#### Partneriaid

Yn Sir Ddinbych mae'r Urdd wedi arwain ar ymgymryd ag ymarfer mapio i nodi'r cyfleoedd sydd ar gael i blant oed ysgol i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Mae'r Urdd, y Fenter Iaith, y Ffermwyr Ifanc a Gwasanaeth Ieuencid Sir Ddinbych yn ddarparwyr yn Sir Ddinbych.

Mae dau o swyddogion yr Urdd yn gweithio'n benodol yn Sir Ddinbych o ganlyniad i Gytundeb Lefel Gwasanaeth Gwasanaeth Ieuencid Sir Ddinbych a grant Gwynt y Môr. Fe fu 229 o blant Sir Ddinbych yn cystadlu yn Eisteddfod T yn 2020. Yn ystod haf 2020 mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych a Gwasanaeth Ieuencid Sir Ddinbych fe ddarparodd yr Urdd Glwb Haf ym Mhrestatyn a Rhuthun am 6 wythnos.

Mae gweithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer dyddiau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg, fel Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru a Dydd Gŵyl Dewi.

#### Y Siarter Iaith

Mae Sir Ddinbych yn awyddus i annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau. Mae ein holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn gweithredu ac yn dilyn fframwaith y Siarter Iaith.

Ers lansio'r Siarter Iaith yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Chymraeg Campus yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg, mae gwaith arloesol wedi ei wneud gan yr ysgolion i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg o fewn cymuned yr ysgol gyfan.



Mae'r ysgolion canlynol wedi derbyn y wobr Aur:

Derbyn yn 2018	Derbyn yn 2019
Ysgol Bro Cinmeirch Ysgol Gymraeg y Gwernant	Ysgol Y Llys Ysgol Twm o'r Nant Ysgol Tremeirchion Ysgol Carreg Emlyn Ysgol Bro Dyfrdwy Ysgol Pen Barras Ysgol Pant Pastynog Ysgol Henllan Ysgol Pentrecelyn Ysgol Dewi Sant Ysgol Betws GG Ysgol Bro Elwern

Mae 33 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn dilyn fframwaith Cymraeg Campus. Ar hyn o bryd mae 23 ysgol wedi llwyddo i gyrraedd y wobr Efydd ond nid oes neb eto wedi llwyddo i gyrraedd gwobr Arian neu Aur.

### **Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Sicrhau fod gan yr holl ysgolion gynlluniau gweithredu cryf i godi safonau yn y Gymraeg. Gydag Ymgynghorwyr Her Gwe yn cefnogi ysgolion i ffurfio cynlluniau gweithredu cadarn ar gyfer gwella'r Gymraeg gyda ffocws clir ar argymhellion Estyn ar gyfer yr ysgolion unigol.

Byddwn yn parhau i hwyluso rhwydwaith y 'Siarter Iaith' er mwyn rhannu syniadau, arfer da a'r gwersi a ddysgwyd. Fe fydd hyn yn rhoi cyfle i ysgolion gydweithio a chynllunio gyda'i gilydd. Byddwn yn gweithio i sicrhau fod pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn derbyn gwobr Aur y Siarter Iaith.

Byddwn yn anelu i weld mwy o ddisgyblion yn astudio pynciau fel Addysg Gorfforol drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n cymryd rhan ac yn gweithio yn y diwydiant chwaraeon a hamdden.

Sicrhau fod ysgolion yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar gyfer dyddiau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg, fel Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi ayb.

Byddwn yn cyfuno ein grŵp strategol gyda fforwm y Gymraeg er mwyn gosod gwaith y grwpiau ochr yn ochr i weithio tuag at yr un nod a sefydlu cyswllt agosach gyda budd-ddeiliaid perthnasol.

Bydd y cyngor yn penodi partner arweiniol i gydlynu partneriaid i sicrhau fod yna gyfleoedd ym mhob ardal i bobl ifanc gymdeithasu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Fe fydd partneriaid yn cynnwys, ond nid wedi eu cyfyngu i'r canlynol, yr Urdd, y Fenter Iaith, y Ffermwyr Ifanc a'r fforwm pobl ifanc. Fe fydd y gwaith hefyd yn cynnwys hyrwyddo'r ddarpariaeth sydd ar gael.

Bydd Mudiad Meithrin yn arwain ac ynghyd â phartneriaid eraill fe fyddant yn hyrwyddo holl negeseuon y ddarpariaeth blyneddodd cynnar i gynulleidfa ehangach – drwy fod yn gynhwysol a sicrhau fod y neges a rennir yn addas i bawb o unrhyw gymuned drwy ddilyn canllawiau Llais yr Iaith. Fe fydd hyn yn cynnwys rhannu podlediad Baby Steps i gynulleidfa ehangach a hyrwyddo addysg Gymraeg mewn sawl iaith.

Bydd yr Urdd yn sicrhau fod holl brofiadau plant a phobl ifanc drwy ei weithgareddau yn plethu i Gwricwlwm Cymru a'i 4 diben. Fel partner allweddol yn y broses o gyflawni'r cynllun hwn fe fydd yr Urdd yn arwain ar ddarparu cyfleoedd allgyrsiol a chymunedol sy'n cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc.

Bydd yr Urdd yn hyrwyddo argaeledd eu profiadau preswyl i ddisgyblion sy'n darparu cyfleoedd i gael profiadau 24 awr cwbl Gymraeg a chreu atgofion cadarnhaol, hirdymor o'r Gymraeg.

Bydd yr Urdd yn anelu i gynyddu cyfranogiad yn ei weithgareddau cyfredol a datblygu gweithgareddau newydd er mwyn cefnogi cyflawni'r cynllun hwn. Mae cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn agored i bob ysgol, waeth beth fo'u categori iaith, a bydd lefel y cyfranogiad yn cael ei fesur drwy gydol y cynllun hwn.

Bydd yr Urdd hefyd yn ymwneud â'r ddarpariaeth ôl 16 oed i gynnig cyfleoedd prentisiaeth a sgiliau cyflogadwyedd o fewn ardal yr awdurdod lleol.

### **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Bydd datblygiad Cwricwlwm Cymru yn dod â gofyniad i'n holl blant a phobl ifanc fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, abl a all gyfathrebu'n effeithiol mewn ffurfiau a lleoliadau gwahanol, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

Felly yn ystod y cynllun deng mlynedd rydym yn disgwyl gweld cynnydd mewn hyder a balchder ymhlith disgyblion yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn amlieithrwydd yn gyffredinol. Fe fydd sicrhau fod y Gymraeg yn berthnasol, bywiog, cyfoes a chynhwysol yn elfennau hanfodol yn llwyddiant y camau gweithredu hyn yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg.

Bydd rhaglen o weithgareddau cymdeithasol allgyrsiol wedi ei gynllunio mewn cydweithrediad â'n budd-ddeiliaid, ac fe fydd mewn grym i ddatblygu ymhellach y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion o bob oed i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Bydd pob ysgol gynradd wedi ennill statws Aur yn un ai'r Siarter Iaith neu Cymraeg Campus.

Bydd yna gynnydd sylweddol yn y lefel sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg drwy Sir Ddinbych.

### Data Allweddol

Ar hyn o bryd mae 15,951 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion yn Sir Ddinbych, tra bod y nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Gymraeg wedi gostwng yn ystod y pandemig gyda tua 6% o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
1595	10%	1914	12%	1914	12%	2233	14%	2393	15%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
2393	15%	2871	18%	2871	18%	3031	19%	3190	20%

## Deilliant 6

**Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)**

### **Ble rydym ni nawr?**

Fe gyflwynwyd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ALNET 2018) ym mis Ionawr 2018 ac yn cael ei weithredu o Medi 2021. Mae Deddf ALNET 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol i gadw'r trefniadau ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed gydag ADY o dan adolygiad ac ystyried a yw'r trefniadau hyn yn ddigonol. Mae'n cynnwys gofyniad statudol i gymryd camau rhesymol i greu system o gefnogaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr gydag ADY.

Mewn ymateb i'r Ddeddf newydd, fe fydd y ddarpariaeth ADY a gaiff ei darparu o fewn addysg prif ffrwd yn cael ei chydlynu ar sail clwstwr gyda chydlynnydd yn cael ei benodi ar gyfer pob clwstwr.

Mae gan Sir Ddinbych ddwy ysgol arbennig sef Ysgol Tir Morfa, Y Rhyl ac Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych ac Uned Cyfeirio Disgyblion, Ysgol Plas Cefndy ar gyfer dysgwyr sy'n profi anawsterau mewn darpariaeth prif ffrwd. O ganlyniad i ddaearyddiaeth y Sir, mae'r ddarpariaeth hon yn defnyddio safleoedd ategol i leihau amser teithio.

Yn ystod y cynllun blaenorol cafodd gwaith ei wneud i gynyddu'r nifer o staff a oedd yn siaradwyr Cymraeg ac a oedd yn darparu cymorth ym maes Lleferydd ac Iaith a chymorth Synhwyraidd a gydag Ymddygiad.

### **Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Parhau gyda'r ymagwedd o ddatblygu'r gefnogaeth briodol ar gyfer pob myfyriwr unigol. Nid oes gan Ysgol Tir Morfa nac Ysgol Plas Brondyffryn ddynodiad ieithyddol a byddai unrhyw ddisgybl sy'n mynychu'r ysgolion hyn yn derbyn cymorth ieithyddol priodol.

- Adolygu darpariaeth gyfredol ac ehangu'r cymorth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar gyfer disgyblion mewn ysgolion yn Sir Ddinbych.
- Datblygu adnoddau dwyieithog newydd fel y gall staff ysgolion ddefnyddio eu dewis iaith ar sail unigol i ddefnyddio platfform hwb.
- Datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer gwasanaethau fel cymorth gydag Ymddygiad.
- Sicrhau fod unrhyw staff newydd a gaiff eu penodi yn gallu siarad Cymraeg lle nodir bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

Pan nad yw hyn yn bosibl, o ganlyniad i'r sgiliau proffesiynol a'r arbenigedd sydd ei angen, byddai cymorth ychwanegol ar gael i gynorthwyo staff i ddysgu Gymraeg o fewn dwy flynedd i'w penodi.

### **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Parhau i fod â chymorth ieithyddol priodol mewn grym i ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Bod â chynllun parhad mewn grym i sicrhau fod cymorth ieithyddol yn cael ei gynnal drwy drosiant naturiol staff.

Parhau gyda'r sefyllfa bresennol o sicrhau darpariaeth Gymraeg o fewn ein hysgolion a bod yna adnoddau priodol a hyfforddiant i gefnogi hyn.

Parhau i adolygu anghenion dysgwyr yn Sir Ddinbych er mwyn sicrhau blaengynllunio effeithiol.

Cydweithredu ar lefel amlasiantaeth drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol.

## Deilliant 7

### Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

#### Ble rydym ni nawr?

Fe ddarganfu'r cyfrifiad diwethaf o sgiliau iaith staff ysgolion fod gan 41% o'r holl staff sgiliau uwch neu uwchlaw yn y Gymraeg. Roedd 16% o'r staff yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae gan ysgolion Sir Ddinbych hanes hir o uwchsgilio staff drwy ddefnyddio'r cwrs sabothol Cymraeg. Dros y 3 blynedd diwethaf mae 11 o athrawon o ysgolion Sir Ddinbych wedi cwblhau'r cwrs gyda 6 o athrawon Sir Ddinbych yn dechrau ar y cwrs ym Medi 2021.

Ar hyn o bryd mae yna 14 o Benaethiaid dros 55 oed. Mae hyn yn cynrychioli 25% o gyfanswm y Penaethiaid. Nifer y penaethiaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg dros 55 yw 4 sy'n 7% o gyfanswm y penaethiaid a 29% o'r holl ysgolion cyfrwng Cymraeg.

#### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Gweithio gyda Gwe a sefydliadau eraill i sicrhau llwybr gyrfa clir a chymorth i'r athrawon hynny/dirprwy benaethiaid/athrawon uwch sy'n dymuno dod yn benaethiaid o fewn yr awdurdod a sy'n arweinwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Gweithio gydag adran Adnoddau Dynol yr awdurdod i adolygu pa mor addas yw ei drefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu addysg dros y 10 mlynedd nesaf i sicrhau fod yr holl bolisiau a gweithdrefnau yn cyd-fynd â'r cynllun.

Sicrhau cysondeb gan yr holl ysgolion o fewn eu dynodiad ieithyddol e.e. y disgwyliad wrth recriwtio yn nhermau'r Gymraeg, y disgwyliad yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg, ymddygiad proffesiynol a'r Gymraeg ayb.

Sefydlu tasglu aml adrannol i ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd i ddenu staff cyfrwng Cymraeg i weithio o fewn y sector addysg yn Sir Ddinbych.

Nodi a sicrhau cefnogaeth lawn ar gyfer y gweithlu perthnasol a fydd angen eu huwch sgilio drwy'r Cynllun Sabothol (yn arbennig staff mewn ysgolion sydd mewn categori trosiannol) dros gyfnod y cynllun.

Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu rhaglen newydd i gefnogi addysgu uwchradd a chefnogi staff i ddysgu Cymraeg neu ennill mwy o hyder o ran defnyddio'r iaith.

Sicrhau staff digonol ar gyfer y blynyddoedd cynnar i ehangu darpariaeth drwy weithio gyda'r Mudiad Meithrin i ddarparu Cyrsiau Cam wrth Gam a Phrentisiaethau.

### **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Twf yn nifer y staff sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu Cymraeg fel pwnc.

Bydd o leiaf 30 o athrawon wedi cwblhau'r cwrs sabothol yn codi lefel eu sgiliau i 'uwch' neu uwchlaw 'uwch'. Mae hyn yn cynnwys athrawon o ysgolion trosiannol.

Proses recriwtio gadarn a chyson ar gyfer y gweithlu Addysg sy'n cyd-fynd â'r cynllun strategol hwn.

Mae'r gweithlu yn ymwybodol o'i rôl yn cynnig i ddisgyblion yr hyder i siarad a defnyddio'r Gymraeg, nid yn unig yn academiaidd (llafar, darllen ac ysgrifennu) ond hefyd yn gymdeithasol (bod yn siaradwyr hyderus sy'n ymgysylltu gyda ac yn integreiddio yn eu cymunedau).

Mae'r gweithlu cyfan yn Ysgolion Sir Ddinbych yn gweld y rôl bwysig sydd ganddynt o ran galluogi disgyblion i ddod yn siaradwyr hyderus a sy'n gweld y Gymraeg fel iaith gynhwysol a pherthnasol mewn byd o ieithoedd pwysig eraill.

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

Fe fydd y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol yn uno gyda Fforwm Iaith y Cynghorau ar ddiwedd 2021 er mwyn goruchwyllo gweithredu a gwerthuso'r cynllun.

Golyga hyn:

- Bydd pob cyfarfod yn cael ei rannu'n ddwy ran gydag un rhan yn benodol i Addysg.
- Isafswm o 3 cyfarfod yn ystod pob blwyddyn.
- Cadeirydd annibynnol

Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

- Ysgolion – Cynrychiolaeth o ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig (Dim mwy na 7 o gynrychiolwyr).
- Partneriaid  
Yr Urdd, Y Fenter Iaith, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Llywodraethwyr Sir Ddinbych, Gwe, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Mwy Na Geiriau), y Ganolfan Cymraeg i Oedolion, Clybiau'r Ffermwyr Ifanc, y Clybiau Gwawr, Coleg Llandrillo Menai, Coleg Cambria, Cymraeg (hyrwyddo), Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Merched y Wawr, Gyrfa Cymru.
- Cynrychiolydd Rhieni
- Cynrychiolydd Disgyblion
- Aelod Arweiniol Addysg Cyngor Sir Ddinbych
- Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ddinbych
- Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych